# Mwsogl rhyfeddol – ble maent yn tyfu orau?

**Amser**: 20-25 munud **Lleoliad**: Coedwig

**Cyfarpar:** Papur a phensil, offer ar gyfer mesur golau, tymheredd a lleithder neu gwnewch raddfa eich hun

**Bwriad**: Deall yn ba fath o gynefin mae mwsog yn tyfu

**Pwnc:**
Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Sgiliau:**
Gwylio pethau byw

**Oeddech chi'n gwybod...?**

Mwsoglau yw rhai o'r planhigion hynaf ar y blaned. Roeddent yma hyd yn oed cyn y dinosoriaid!

Mae mwsogl hefyd yn gartref pwysig iawn ar gyfer llawer o greaduriaid eraill, gan gynnwys infertebratau fel gwlithod a phryf lludw. Yn aml bydd y mwsogl yn cael ei symud o gwmpas wrth i adar chwilota am bryd o fwyd! Mae cannoedd o rywogaethau gwahanol o fwsogl yng Nghymru.

Dydy mwsoglau ddim yn gallu rheoli'r dŵr sydd ynddynt. Felly pan mae'r aer yn sych maen nhw'n sychu allan. Os maen nhw'n sychu allan nad ydynt yn gallu cynhyrchu bwyd.

**Sut fath o le rydych chi'n meddwl sydd ei angen ar fwsogl i dyfu?**
**Ticiwch y geiriau sy'n disgrifio'r amodau gorau i fwsogl dyfu:**

sych cysgodol gwlyb poeth claear (cool) llachar cynnes

llaith gwyntog llonydd tamp corslyd

**A ydych yn meddwl bod mwsoglau yn tyfu i wynebu cyfeiriad penodol (gogledd, dwyrain, de neu orllewin) neu ydynt yn tyfu ym mhob man?**

____________________________________________________________________________

**Creu damcaniaeth: Nodwch yn y bocs ym mha fath o safle fydd y mwyaf o fwsogl yn tyfu.**

**Yn fy marn i fydd...**

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES
NATURA 2000

# Mwsogl rhyfeddol – ble maent yn tyfu orau?

**Ewch i ddarganfod tri man gwahanol ble mae mwsogl yn tyfu a chwblhewch y tabl isod. Defnyddiwch gwmpawd i weithio allan ym mha gyfeiriad mae'r mwsogl yn tyfu.**

| | Safle 1 | Safle 2 | Safle 3 |
|---|---|---|---|
| Ble mae'n tyfu<br>e.e. ar goeden, carreg, boncyff marw | | | |
| Pa mor olau ydi hi<br>1 2 3 4 5<br>Tywyll Golau iawn | | | |
| Pa mor gynnes ydi hi<br>1 2 3 4 5<br>Oer Poeth | | | |
| Pa mor llaith ydi hi<br>1 2 3 4 5<br>Llaith Sych iawn | | | |
| I ba gyfeiriad mae'r mwsogl yn tyfu? | | | |

1. A oedd eich damcaniaeth yn gywir? ______________________________________________

2. Pam yn eich tyb chi bod mwsoglau yn tyfu i'r cyfeiriad hwn?

______________________________________________________________________

**Bydd pob math o fwsogl angen yr un cynefin?**

**Sut fedrwch chi ddysgu mwy am anghenion cynefin gwahanol mwsog?**

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000

Life